**Adroddiad I:** Pwyllgor Cynllunio

**Dyddiad y Cyfarfod:** 16eg Mawrth 2016

**Aelod / Swyddog Arwain:** Y Cynghorydd David Smith, Tir y Cyhoedd, Angela Loftus, Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai

**Awdur yr Adroddiad:** Claire MacFarlane, Swyddog Cynllunio

**Teitl:** Briff Datblygu Safle: Safleoedd Brwcws, Dinbych – Mabwysiadu'r ddogfen derfynol

---

## 1. Beth yw testun yr adroddiad?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y 'Briff Datblygu Safle: Safleoedd Brwcws, Dinbych', diwygiadau arfaethedig i'r Canllaw Cynllunio Atodol ac mae'n argymell mabwysiadu'r ddogfen er mwyn gallu defnyddio'r canllawiau i wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

## 2. Beth yw'r rheswm dros ysgrifennu'r adroddiad hwn?

2.1 Diben yr adroddiad hwn yw hysbysu'r Aelodau ynglŷn â'r sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Briff Datblygu Safle drafft ac i geisio mabwysiadu'r briff datblygu gyda'r newidiadau arfaethedig. Os caiff ei fabwysiadu, defnyddir y Briff Datblygu Safle i helpu i wneud penderfyniadau ar unrhyw geisiadau cynllunio ar y safle.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Y bydd yr Aelodau yn mabwysiadu'r Briff Datblygu Safle arfaethedig ar gyfer safleoedd Brwcws, Dinbych, sydd wedi'i atodi yn Atodiad 1, i'w ddefnyddio i wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio ac apeliadau cynllunio.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Os caiff ei fabwysiadu, bydd y Briff Datblygu Safle yn un o gyfres o nodiadau Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n ymhelaethu Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 – 2021 (CDLl) a dyraniadau safle.

4.2 Bydd y Briff Datblygu Safle yn ffurfio'r sail ar gyfer penderfynu ar unrhyw geisiadau cynllunio yn y dyfodol ar y safle. Nod y briff yw darparu canllaw ar faterion posibl yw y bydd angen i ddatblygwyr ystyried, canllawiau cynllunio sy'n berthnasol yn lleol ar y safle a sicrhau bod gofynion y Cyngor ar y safle hwn yn cael eu cyflawni.

4.3 Roedd y Briff Datblygu Safle yn destun ymgynghoriad cyhoeddus am 13 wythnos o 3$^{ydd}$ Awst i 30$^{ain}$ Hydref 2015. Mae Adroddiad yr Ymgynghoriad, yn cynnwys crynodeb o bob ymateb a dderbyniwyd, wedi'i atodi i'r adroddiad hwn yn Atodiad 2.

4.4 Cynhaliwyd pedwar sesiwn galw heibio mewn lleoliadau amrywiol yn ystod y broses ymgynghori. Daeth mwy na 120 o bobl i'r digwyddiadau hyn a chafodd y rhai a oedd yn bresennol gyfle i roi sylwadau ar fapiau o'r safle. Yn y digwyddiadau, roedd Swyddogion o wahanol adrannau ar gael i siarad gyda'r cyhoedd, darparu gwybodaeth ychwanegol a chyngor ar ymholiadau ar safleoedd penodol.

4.5 Derbyniwyd cyfanswm o 59 o ymatebion ysgrifenedig yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad (yn cynnwys nifer o ymatebion hwyr) a rhoddwyd 167 o sylwadau ar y mapiau yn ystod y sesiynau galw heibio. Mae'r prif faterion allweddol a godwyd wedi'u crynhoi ac mae crynodeb o bob sylw a dderbyniwyd ynghyd â'r ymatebion unigol wedi'u cyflwyno yn Adroddiad yr Ymgynghoriad, sydd wedi'i atodi yn Atodiad 2. Mae'r sylwadau gwreiddiol ar gael i'w gweld yn llawn gan y Tîm Cynllunio Strategol a Thai yng Nghaledfryn.

4.6 Cynigiwyd nifer o ddiwygiadau mewn ymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd. Dangosir y rhain mewn testun **trwm** neu destun gyda ~~llinelldrwyddo~~ yn y Briff Datblygu Safle sydd wedi'i atodi yn Atodiad 1. Y prif newidiadau sy'n cael eu cynnig yw: ehangu cwmpas yr asesiad trafnidiaeth sydd ei angen; testun ychwanegol ar ofynion archeolegol, teithio gweithredol (cerdded a beicio) a mathau o dai; atgyfnerthu'r geiriad sydd ei angen ar gyfer y coridor bywyd gwyllt/tirlun; a'r gofyniad ar gyfer cynllun adeiladu ar gyfer unrhyw ddatblygiad.

4.7 Cyflwynwyd y Briff Datblygu Safle ac Adroddiad yr Ymgynghoriad wedi'u diwygio i Aelodau Grŵp Llywio'r Cynllun Datblygu Lleol ar 9$^{fed}$ Chwefror 2016. Roedd y Grŵp Llywio yn argymell cyflwyno'r ddogfen i'r Pwyllgor Cynllunio i'w mabwysiadu.

4.8 Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau ar ddogfen sgrinio'r Asesiad Amgylcheddol Strategol.

**5. Ym mha ffordd y mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Bydd y Canllaw Cynllunio Atodol yn cyfrannu'n gadarnhaol at y Blaenoriaethau Corfforaethol canlynol a bennwyd gan Gyngor Sir Ddinbych:

- *Moderneiddio'r Cyngor* i ddarparu arbedion a gwella gwasanaethau i'n cwsmeriaid drwy sicrhau bod dogfennau canllaw cynllunio cyfredol yn cael eu darparu ar gyfer cyflwyno tir i'w ddatblygu ar y safle hwn.
- *Datblygu'r Economi Leol* drwy ddarparu'r fframwaith ar gyfer darparu tir newydd posibl ar gyfer datblygiad tai newydd a thrwy ysgogi twf yn y diwydiant adeiladu lleol.

- *Strydoedd glân a thaclus* drwy sicrhau bod cynllun datblygu wedi'u gynllunio'n dda yn cael ei gyflwyno, sy'n ymgorffori mannau agored, llwybrau ar gyfer mynediad i gerddwyr, ynghyd â threfniadau ar gyfer cynnal a chadw yn y dyfodol..
- *Sicrhau mynediad da i dai o safon* drwy ddarparu'r fframwaith ar gyfer darparu datblygiadau tai newydd, yn cynnwys cyfran o dai fforddiadwy.

**6. Beth fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Mae'r adroddiad hwn yn ceisio cymeradwyaeth i'w fabwysiadu ac ar y cam hwn nid ydym yn rhagweld y bydd yn creu unrhyw gostau ychwanegol.

6.2 Ar ôl ei fabwysiadu, bydd y Canllaw Cynllunio Atodol o fudd i Swyddogion ac Aelodau wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Bydd yn cynorthwyo'r Tîm Rheoli Datblygiad oherwydd bydd ganddynt wybodaeth ychwanegol ar fathau derbyniol o ddatblygiadau yn nhermau cynllunio a chyfyngiadau posibl ar safleoedd.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid ategu templed yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gwblhau fel atodiad i'r adroddiad.**

7.1 Casgliad proses sgrinio'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (Atodiad 3) yw nad oes angen yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y Briff Datblygu Safle, yn cynnwys y diwygiadau arfaethedig i'r ddogfen.

7.2 Derbyniodd yr aelodau farn sgrinio gyntaf yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gyda'r adroddiad a gyflwynwyd i'r pwyllgor ar 15fed Gorffennaf 2015 pan ofynnodd y Swyddogion am gymeradwyaeth ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus gyda rhanddeiliaid allweddol a'r cyhoedd. Cytunwyd nad oedd angen Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar y cam hwnnw. Nid yw'r diwygiadau arfaethedig i'r ddogfen yn gwarantu asesiad llawn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r pwyllgor Archwilio ac eraill?**

8.1 Drwy gydol y broses o baratoi'r ddogfen, bu Swyddogion Cynllunio yn gweithio ar y cyd ar gynnwys y Briff Datblygu Safle gyda chydweithwyr o'r Adran Priffyrdd, yr Economi a Datblygu Busnes a Rheoli Datblygiad. Derbyniodd Aelodau ward Dinbych Isaf wybodaeth gyson am y cynnydd.

8.2 Bu aelodau Grŵp Llywio'r CDLl yn trafod cynnwys y ddogfen ddrafft cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Mehefin 2015, a thrafodwyd materion a godwyd yn y sylwadau a dderbyniwyd, a diwygiadau arfaethedig, ym mis Chwefror 2016.

8.3 Cyflwynwyd y cynigion ar gyfer y briff datblygu safle hefyd i Grŵp Aelodau Ardal Dinbych ym mis Ionawr 2016. Bu i'r swyddogion fynychu cyfarfodydd

Cyngor Tref Dinbych ym mis Medi a mis Tachwedd 2015 i drafod y briff datblygu a'r ymgynghoriad.

8.4 Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd hefyd gyda phreswylwyr lleol ac Aelodau'r ward. Bu'r preswylwyr lleol hefyd yn cyfrannu at y gwaith o baratoi'r Briff Datblygu Safle drafft cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Ni ragwelir y bydd mabwysiadu'r Briff Datblygu Safle yn creu unrhyw gostau ychwanegol, ond os bydd unrhyw gostau yn codi, bydd angen cyfyngu'r rhain o fewn y cyllidebau Adrannol presennol.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Mae'r Briff Datblygu Safle yn nodi gweledigaeth glir ar gyfer datblygu'r safle yn y dyfodol. Heb ganllawiau clir ar gyfer y safle, mae yna berygl na fydd datblygiad cynaliadwy o safon uchel, gyda chymysgedd priodol o ddeunyddiau a buddiannau cymunedol yn cael ei wireddu ac ni fyddai mewnbwn arwyddocaol y preswylwyr i'r briff yn cael ei adlewyrchu.

10.2 Ni fyddai peidio cymryd unrhyw gamau; h.y. peidio cael canllaw cynllunio ar waith ar gyfer partïon â diddordeb, yn gyson ag uchelgais y Cyngor i ddarparu swyddi a chartrefi i gymunedau lleol ac amgylchedd adeiledig a naturiol deniadol i fyw ac i gynnal busnes.

**11. Y Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004).